COFNODION CYFARFOD BLYNYDDOL CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 22ain o FEHEFIN 2020 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair), Tyssul Evans,Linda Williams,Tracey James,Ian Evans,Caroline Williams a'r Clerc, Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Aled Williams,Heddwyn Jones,Meic Bowen,Alan Lewis,Geraint Rosser a Geoff Hewitt.

Materion Personol

Croesawyd pawb i'r Cyfarfod Blynyddol gan y Cadeirydd. Cafwyd adroddiad gan y Clerc ynglŷn ag effaith y COVID-19 ar sefyllfa'r wlad ar hyn o bryd a'r ffordd y mae'n ymyrrid ar weithgaredd y Cyngor

2398 Cofnodion
Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfod Blynyddol diwethaf ar 06/05/19 fel rhai cywir.

2399 CADEIRYDD 2020-2021
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Margaret Rees yn Gadeirydd.

2400 IS-GADEIRYDD 2020-2021
Cynigwyd ac etholwyd y Cynghorwr Linda Williams yn Is-gadeirydd

2401 LWFANS Y CADEIRYDD
Penderfynwyd bod y Cadeirydd i dderbyn Lwfans o £300 tuag at dreuliau'r swydd.

2402 Diolchiadau
Cyfeiriodd y Cadeirydd presennol ei bod wedi cael blwyddyn brysur a diolchodd i'r Is-gadeirydd a'r Cyngor yn gyffredinol am eu cydweithrediad parod. Diolchodd hefyd i'r Clerc,Glyndwr Prideaux am ei wasanaeth trylwyr a chydwybodol yn ystod y flwyddyn.

Diolchwyd iddo ef fel Cadeirydd am ei arweiniad doeth ac am lywio'r amryw Gyfarfodydd mor drefnus yn ystod flwyddyn ei lywyddiaeth.

2403 Ethol Aelodau'r Is-bwyllgorau

Cyllid a Chynllunio
Cadeirydd y Cyng.Margaret Rees,Cyng.Linda Williams (Is-gadeirydd),Cyng.Geoff Hewitt (Cyn Cadeirydd), Cyng. Ian Evans,Cyng. Alan Lewis,Cyng. Tyssul Evans,

Iaith:
Cadeirydd y Cyng.Margaret Rees,Cyng. Aled Williams,Cyng Heddwyn Jones, Cyng. Linda Wiliiams,Cyng.Caroline Williams, Cyng.Tracey James.

Pwyllgor Cyswllt Cwar Torcoed:
Cyng. Margaret Rees,Cyng. Caroline Williams,Cyng. Alan Lewis,Cyng. Tyssul Evans.

Pwyllgor y Wefan:
Cyng. Linda Williams,Cyng.Alan Lewis

Pwyllgor y Frigâd Dan (Pontiets)
Cyng,Geraint Rosser,Cyng.Meic Bowen,Cyng.Heddwyn Jones.

2404 Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1)

Cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Caroline Williams ein bod yn derbyn y Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 1) am y flwyddyn 2019 - 2020.

2405 Datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2)

Cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Ian Evans ein bod yn derbyn y datganiad Llywodraethau Blynyddol (Rhan 2) am y flwyddyn 2019 - 2020.

2406 Cyfrifon y Cyngor a Datganiadau Cyfrifyddu am y Flwyddyn 2019 – 2020.

Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc, cynigwyd gan Tyssul Evans ac eiliwyd gan Tracey James ein bod yn derbyn y Cyfrifon am y flwyddyn 2019 - 2020 fel y cyflwynwyd gan y Swyddog Ariannol Cyfrifol. Diolchwyd i'r Clerc am ei waith trylwyr yn y mater hwn.

2407 Pŵer Cyflawn

Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc awdurdodwyd Pŵer Cyflawn i'r Is-bwyllgor Cyllid a Chynllunio i benderfynu materion o bwys a brys yn ystod cyfnod y COVID-19.

Daeth y Cyfarfod Blynyddol i ben am 19.45 y.n.

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……